**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 14 Hydref 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Peter Davies, Endaf Edwards, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Dan Potter, Rowland Rees-Evans, Lynford Thomas a Wyn Thomas

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwyn, Dafydd Edwards a Rhodri Evans (Aelodau Cabinet) ynghyd â'r Cynghorydd Lloyd Edwards

**Swyddogion a oedd yn bresennol:** Mrs Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol- Partneriaethau a Pherfformiad, Ms Cathryn Morgan, Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid, Mr Michael Smith, Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoleb, Ms Joy Lake, Rheolwr Corfforaethol - Clic, Miss Anna Gawthorpe, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, Mr Arwyn Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid, Mr Rheinallt Lewis, Llyfrgellydd Cynorthwyol, Ms Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro, Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau

(10:0am -12:45pm )

**1 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elizabeth Evans ynghyd â'r Aelodau Cabinet canlynol, y Cynghorwyr Catrin Miles a Ray Quant.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3 Is-grwp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion - adroddiad cynnydd Strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Gorffennaf 2021 is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar y cynnydd a wnaed o ran y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn.

Adroddodd fod Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi 2020-22 wedi ei chyhoeddi ym mis Awst 2020, yn olynydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Roedd gan y Strategaeth dri amcan allweddol ac mae’r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 65 cam gweithredu i’w cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Roedd y Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi yn cael ei monitro gan Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion, a oedd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth, yn ogystal â'r camau nesaf arfaethedig ac mae’r rhain wedi’u nodi isod:

1.Byddai Is-grŵp Tlodi'r BGC yn parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau dealltwriaeth cyffredin o effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion drwy gasglu a dadansoddi data.

2. Roedd angen adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu. Roedd cyfleoedd i gydweithio â mwy o asiantaethau partner, er mwyn hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth a’r holl help sydd ar gael.

3.Roedd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw a oedd wedi'i chynllunio i gael ei diweddaru yn ystod oes y Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi. Roedd rhai partneriaid sy'n cyfrannu wedi cwblhau eu camau gweithredu tra bo camau gweithredu eraill yn dal i fynd rhagddynt. Byddai’r Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu i sicrhau bod y partneriaid yn cydweithio'n effeithiol i gryfhau cydnerthedd unigolion a chymunedau ac addasu i effaith COVID-19.

4. Nid yw'r fframwaith a sefydlwyd i fonitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi yn cynnwys modd i bartneriaid dynnu sylw at faterion penodol sy'n peri pryder – yn arbennig, y materion hynny y mae’n bosibl y gallai’r BGC fynd i'r afael â hwy'n effeithiol ar sail amlasiantaethol. Byddai’r fframwaith monitro yn cael ei addasu er mwyn iddo gynnwys ffordd glir o nodi’n rhagweithiol y materion penodol sy'n peri pryder ac y gall darparwyr cymorth, dinasyddion ac aelodau is-grŵp y BGC eu codi.

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:

(i) nodi’r cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni tri amcan Strategaeth Mynd i’r Afael â Chaledi Ceredigion a chefnogi’r ‘camau nesaf’ a gyflwynwyd; a
(ii) diolch i Gydgysylltydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid am ei gwaith ar y strategaeth hon

4 **Siarad, Gwrando a Gweithio gyda’n Gilydd - fersiwn ddrafft y Polisi Ymgysylltu**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad ar ‘Siarad, Gwrando a Gweithio gyda’n Gilydd’ - fersiwn ddrafft Polisi Ymgysylltu Cyngor Sir Ceredigion. Adroddodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod y polisi yn amlinellu’r ymagwedd gorfforaethol at ymgysylltu â phobl Ceredigion.
Wrth sôn am ymgysylltu, adroddwyd am y ffyrdd y mae’r Cyngor yn gwneud y canlynol -

- Rhoi gwybod. Rhoi gwybodaeth gytbwys a gwrthrychol i'r cyhoedd.
- Ymgynghori. Cael adborth y cyhoedd ynghylch cynigion.
- Cynnwys. Gweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd drwy gydol y broses, er mwyn sicrhau cysondeb o ran deall ac ystyried pryderon a dyheadau'r cyhoedd.
- Cydweithio. Gweithio law yn llaw â'r cyhoedd ym mhob agwedd ar benderfyniad neu ym mhob agwedd ar y modd y darperir y gwasanaeth, gan gynnwys diffinio'r broblem, datblygu dewisiadau eraill a nodi a darparu'r atebion a ffefrir.
- Galluogi. Edrych am ffyrdd o roi camau terfynol y broses benderfynu a darparu gwasanaeth yn nwylo'r cyhoedd - dirprwyo.

Mae'r polisi yn cynnwys dulliau arloesol o ymgysylltu, gan gynnwys defnyddio platfformau ymgysylltu ar-lein. Mae'r polisi yn cynnwys pecyn cymorth o adnoddau a thechnegau. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n amlinellu gwell rheolaeth gorfforaethol a gwell rheolaeth ar ymgysylltu ac atebolrwydd, er enghraifft drwy amserlen ymgysylltu gorfforaethol ac adroddiadau blynyddol.

Adroddodd y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod y Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned sydd gennym ar hyn o bryd yn dyddio'n ôl i 2012 a bod angen polisi newydd yn lle hwnnw, a fydd yn ystyried dulliau newydd o ymgysylltu, ac a fydd hefyd yn ystyried deddfwriaeth a chanllawiau diweddar. Yn ogystal â hynny, roedd angen rhoi ystyriaeth i'r defnydd cynyddol o ymgysylltu digidol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ar y canlynol:-

(i) derbyn a chymeradwyo 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd', sef fersiwn ddrafft Polisi Ymgysylltu Cyngor Sir Ceredigion cyn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2021-22; a
(ii) nodi y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 2 Tachwedd 2021.

**5 Diweddariad ar y Gwasanaeth CLIC**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â'r Gwasanaeth Clic. Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Dafydd Edwards, ynghyd â Rheolwr Corfforaethol – Clic a'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid. Adroddwyd bod y gwasanaeth CLIC yn cynnwys y Ganolfan Gyswllt Gorfforaethol, Ystafell y Post Corfforaethol, Cyswllt Uniongyrchol (Wyneb yn Wyneb), Tîm y Bathodyn Glas a'r Llyfrgelloedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau i'r Ganolfan Gyswllt (CLIC) ddechrau cymryd galwadau ym mis Medi 2017 ac erbyn hyn roedd yn darparu'r gwasanaeth cyswllt cychwynnol i bron bob un o'r meysydd gwasanaeth.
Yn ystod y misoedd nesaf, byddai'r maes gwasanaeth olaf, Gofal Cymdeithasol, yn cael ei drosglwyddo i CLIC drwy'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant, gan sicrhau mai CLIC fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf i'r holl

wasanaethau.  Roedd dwy garfan o staff y Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi dilyn hyfforddiant i baratoi ar gyfer cyflwyno galwadau Gofal Cymdeithasol yn unol â’r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant.  Roedd Cyswllt Cwsmeriaid hefyd wedi ymwneud â datblygu’r ffurflenni cyswllt cychwynnol a fyddai, maes o law, yn cael eu defnyddio gan staff i ymdrin ag ymholiadau Gofal Cymdeithasol.

Adroddwyd bod tîm y Ganolfan Gyswllt wedi bod yn gweithio’n gyfan gwbl o gartref, ers dechrau’r pandemig a’r cyfnod clo cyntaf, 23 Mawrth 2020, gan weithredu gwasanaeth llawn gydag ychydig iawn o newid i oriau neu ddyletswyddau. Roedd y Tîm hefyd wedi darparu oriau ychwanegol o wasanaeth, yn ystod penwythnos y Pasg yn 2020 ac wedi cefnogi’r gwasanaethau etholiadol yn ystod etholiadau Llywodraeth Cymru ac etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021, gan gynnig gwasanaeth dros y ffôn rhwng 7am a 10pm ar ddiwrnod yr etholiadau.

Yn ogystal â darparu cymorth dros y ffôn, mae’r tîm hefyd yn derbyn taliadau, yn rheoli blychau post corfforaethol ac yn darparu gwasanaeth ychwanegol sy’n cynnig gwybodaeth am COVID-19. Mae’r gwasanaeth wedi profi llawer o gyfnodau heriol oherwydd prinder staff a rhai problemau technegol ond mae bob amser yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i’r cwsmeriaid.

Cyflwynwyd yr wybodaeth ganlynol a oedd yn seiliedig ar ymholiadau a dderbyniwyd rhwng 01/09/2020 a 31/08/2021.

Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd = 113,203

| | Saesneg | Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Medi-20 | 8820 | 1549 | 10369 |
| Hydref-20 | 8667 | 1527 | 10194 |
| Tachwedd-20 | 7478 | 1277 | 8755 |
| Rhagfyr-20 | 5530 | 887 | 6417 |
| Ionawr-21 | 8106 | 1405 | 9511 |
| Chwefror-21 | 7483 | 1335 | 8818 |
| Mawrth-21 | 9509 | 1755 | 11264 |
| Ebrill-21 | 8236 | 1513 | 9749 |
| Mai-21 | 7517 | 1379 | 8896 |
| Mehefin-21 | 8419 | 1399 | 9818 |
| Gorffennaf-21 | 8389 | 1453 | 9842 |
| Awst-21 | 8191 | 1379 | 9570 |
| Cyfanswm | 96,345 | 16,858 | |
| Cyfanswm y ddwy iaith | | 113,203 | |

Galwadau y rhoddwyd y gorau iddynt = Saesneg 4% / Cymraeg 1%

- Cyfanswm yr e-byst a dderbyniwyd = 17,980
- Cyfanswm yr ymholiadau a gofnodwyd = 68,698

O ran Ymholiadau CLIC (Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid) nodwyd bod gan y system 79 categori gwahanol (fe'u diffinnir yn feysydd gwasanaeth) a 407 isgategori.  Roedd galwadau/ymholiadau yn cael eu cofnodi ar y system Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid (CRM) er mwyn sicrhau bod cofnod o unrhyw gyswllt â chwsmeriaid. Roedd pob ymholiad yn cael rhif cyfeirnod.

Cyflwynwyd dadansoddiad o'r ymholiadau a gofnodwyd ar y system Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid, gyda'r 15 categori uchaf fel a ganlyn:-

| Categori | Cyfanswm a gofnodwyd |
|---|---|
| Rheoli Gwastraff | 11,357 |
| Gofal Plant | 10,956 |
| COVID-19 | 6,686 |
| Priffyrdd | 4,954 |
| Ymholiad Cyffredinol | 3,792 |
| Bathodyn Glas | 2,879 |
| Y Gofrestr Dai/Digartrefedd | 2,856 |
| Treth y Cyngor | 2,819 |
| Etholiadau | 2,347 |
| Taliadau | 2,054 |
| Cynllunio | 1,724 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,166 |
| Rheoli'r Amgylchedd | 1,025 |
| Gorfodi Parcio a Pharcio Sifil | 978 |
| Apwyntiadau Cartrefi Preswyl | 835 |
| Cyfanswm | 56,428 |
| Ymholiadau Eraill | 12,270 |

Cyfanswm yr ymholiadau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn 68,698

Nodiadau Refeniw a Budd-daliadau a gofnodwyd ar system Comino yn ystod y cyfnod hwn:-

| | |
|---|---|
| Budd-dal Tai | 3,023 |
| Treth y Cyngor | 14,900 |
| Ardrethi Annomestig | 1,396 |
| Cyfanswm | 19,319 |

Dadansoddiad fesul pob maes gwasanaeth:-

| Gwasanaeth | Cyfanswm |
|---|---|
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 18,547 |
| Ysgolion a Diwylliant | 11,733 |
| Cyswllt Cwsmeriaid | 10,151 |
| Cyllid a Chaffael | 9,411 |
| Porth Gofal -Ymyrraeth wedi'i Thargedu | 5,949 |
| Economi ac Adfywio | 4,736 |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 4,191 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 2,506 |
| Porth Cymorth Cynnar | 1,485 |
| Pobl a Threfniadaeth | 192 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 158 |
| Porth Cynnal | 64 |

Ymholiadau gan Gynghorwyr
Yn ystod y cyfnod rhwng 01.09.20 a 31.08.21, 2,034 cofnodwyd 696 ymholiad yn y Gymraeg ac 1338 ymholiad yn Saesneg gan Gynghorwyr Sir. Mae hyn yn cyfateb i 3% o'r holl ymholiadau.

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 696 |
| Saesneg | 1,338 |
| Cyfanswm yr ymholiadau a gofnodwyd gan Gynghorwyr | 2,034 |
| Canran yr holl ymholiadau a gofnodwyd | 3% |

Ystafell y Post oedd wedi newid fwyaf yn ystod y cyfnod hwn, gyda phost pob un o'r swyddfeydd eraill yn cael ei ailgyfeirio bellach i Ganolfan Rheidol. Mae tîm ystafell y post yn cael ei gynorthwyo gan y tîm cyswllt uniongyrchol i gyflawni dyletswyddau dyddiol. Roedd tîm Ystafell y Post wedi bod yn gyfrwng dosbarthu 38,000 o lythyron brechu i drigolion Ceredigion; 1,040 pecyn Te Prynhawn i Ofalwyr; Pecynnau Llesiant i Ofalwyr; wedi cynorthwyo gyda 70 pecyn o adnoddau addysgol i ddisgyblion a oedd yn cael eu haddysgu gartref; wedi cynorthwyo i bostio'r holl ddogfennau a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol a drosglwyddwyd yn ddiweddar, gan barhau i sicrhau busnes fel arfer.

Bob dydd, roedd y post yn cael ei agor, yn cael ei ddosbarthu i wasanaethau ac yn cael ei sganio i dimau generig ar gyfer ei brosesu. Roedd pob taflen amser, hawliadau teithio, anfonebau yn cael eu sganio'n uniongyrchol i'r adran daliadau a'r gyflogres; roedd gohebiaeth refeniw a budd-daliadau yn cael ei sganio a'i mynegeio; roedd ceisiadau am fathodyn glas, asesiadau ariannol yn cael eu hanfon ymlaen at y timau ynghyd ag unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd ar gyfer Cwynion, Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r Prif Weithredwr. Roedd yr holl ddogfennau gwreiddiol a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi ac yn cael eu dychwelyd at y cwsmeriaid o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Roedd ystafell y post yn parhau i argraffu unrhyw sieciau/hysbysiadau BACS ar ran yr Awdurdod ac yn postio unrhyw eitemau papur yr oedd angen eu hanfon yn ddiogel. Erbyn hyn roedd ystafell y post hefyd yn ymdrin ag argraffu a phacio unrhyw bost a fyddai'n cael ei anfon allan, a hynny ar ran pob adran. Roedd staff ystafell y post hefyd yn ymdrin ag arian a dderbyniwyd drwy'r post neu a bostiwyd drwy'r blwch llythyron y tu allan i Ganolfan Rheidol. Roedd sieciau ac arian a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi ac yn cael eu prosesu y diwrnod yr oeddent yn cael eu derbyn, gan anfon derbynebau drwy'r post os gofynnwyd amdanynt neu roeddent yn cael eu sganio i adrannau. Roedd y blychau post ym Mhenmorfa, Neuadd y Sir, Swyddfa Aberteifi a Swyddfa Llanbedr Pont Steffan yn cael eu gwacáu a'r cynnwys yn cael ei brosesu'n rheolaidd.

Yn ystod pandemig y COVID-19, y rhai yr amharwyd fwyaf ar eu gwaith oedd y tîm Cyswllt Uniongyrchol, gan fod y swyddfeydd ar gau er 20 Mawrth 2020.

Roedd yr aelodau hyn o staff bellach yn cynorthwyo tîm ystafell y post a thîm y Bathodyn Glas, tra bo dau aelod o'r tîm wedi eu hadleoli i'r tîm Olrhain Cyswllt. Roedd hyn wedi rhoi'r cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd ac ennill profiad pellach. Oddi ar fis Mehefin 2021, bu staff Cyswllt Uniongyrchol hefyd yn cynorthwyo gyda'r broses o ailagor Llyfrgelloedd.

Roedd tîm y Bathodyn Glas wedi parhau i weithredu drwy gydol y pandemig, gyda staff yn gweithio gartref drwy gydol yr amser. Rhwng 01.09.20020 a 31.08.2021 cyflwynwyd cyfanswm o 1,713 Bathodyn Glas.

Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda iawn, ac ar gyfartaledd yn ymdrin ag oddeutu 9, 400 o alwadau, 1,500 o e-byst ac yn cofnodi 5,600 o ymholiadau gan gwsmeriaid bob mis.

Mynegodd sawl aelod eu pryderon nad oeddent yn cael gwybod gan y gwasanaeth perthnasol a oedd camau wedi eu cymryd i ymateb i ddarn o waith a oedd wedi ei gofnodi ganddyn nhw. Mewn ymateb, adroddodd yr Aelod Cabinet fod pob gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd a diolch i holl swyddogion y gwasanaeth am eu gwaith.

**6 Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar Safonau Llyfrgelloedd. Nodwyd bod yn rhaid i'r Llyfrgell adrodd i Lywodraeth Cymru unwaith y flwyddyn ar safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yr adroddiad dan sylw oedd yr adroddiad a oedd wedi ei lunio ar gyfer 2019/20.

CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad.

.

**7 Adroddiad ar Ystadegau 2020 Uwch Grwner Ceredigion**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Ystadegau Uwch Grwner Ceredigion 2020. Nodwyd bod adroddiad ar farwolaethau a adroddwyd i Grwner Ceredigion yn cael ei baratoi'n flynyddol gan yr Uwch Grwner ('Adroddiad Ystadegau') ac yn cael ei anfon i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn ei gyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Crwner ar wefan Llywodraeth y DU.

Dywedwyd bod Adroddiad y Prif Grwner i'r Arglwydd Ganghellor yn cynnwys glasbrint Model y Crwner. Mae hwn yn argymell y dylai'r Uwch Grwner gyflwyno adroddiad blynyddol byr hefyd i'r Prif Grwner a'r Cyngor bob mis Gorffennaf a dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys ystadegau perthnasol ar yr achosion cyfredol/ achosion sydd wedi cau (gyda ffigyrau i gymharu â blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb am dîm y Crwner a threfniadau staffio ac unrhyw gynlluniau i'r dyfodol. Nid oes Adroddiad o'r fath wedi ei ddarparu i'r Cyngor.

Adroddwyd bod yr Adroddiad ar Ystadegau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol parthed gwasanaethau Crwner Ceredigion er mwyn sicrhau tryloywder i'r cyhoedd. Gan fod yr Ystadegau Gwladol bellach wedi eu cyhoeddi cyflwynwyd yr Adroddiad ar Ystadegau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Nododd y Swyddog Llywodraethu yr argymhellir y dylid cyhoeddi'r Adroddiad ar Ystadegau'n flynyddol ar dudalen Gwasanaethau'r Crwner ar wefan y Cyngor, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr Adroddiad ar Ystadegau (gan fod yn ofalus i beidio â chyhoeddi'r Adroddiad cyn i'r Ystadegau Cenedlaethol gael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Hysbyswyd Uwch Grwner Ceredigion a Gwasanaethau Dadansoddi Ystadegau Cyfiawnder / Cyfiawnder Sifil a Gweinyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y cynnig hwn.

Estynnwyd gwahoddiad i Uwch Grwner Ceredigion gyflwyno Adroddiad i'r Cyngor a/neu ddarparu sylwadau/ testun ychwanegol ac roedd wedi cadarnhau yn sgil y llwyth gwaith cyfredol, argaeledd i eistedd mewn llys a swydd wag (sydd bellach wedi ei llenwi) nad oedd modd iddo baratoi yr adroddiad blynyddol eleni. Gobeithir y bydd y Crwner yn medru darparu Adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:-
(i) nodi cynnwys Adroddiad Ystadegol 2020 Uwch Grwner Ceredigion; a
(ii) sicrhau bod fersiwn wedi'i golygu o'r cyhoeddiad blynyddol sef Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor (ar dudalen Gwasanaethau'r Crwner).

**8 Blaenraglen Waith**

Cytunwyd ar y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd ond bod angen nodi y byddai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried Ffermydd y Sir ymhellach ym mis Ionawr 2022, gan fod gwasanaeth yr ystadau yn methu cyflwyno adroddiad cyn hyn, oherwydd blaenoriaethau eraill o ran gwaith.

**9 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Gorffennaf 2021.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 27 Hydref 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**